CYFRES C12

# amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Enw



**DARLLENWCH**
Mathew 1: 18-25



**ADNOD ALLWEDDOL**
Mathew 1: 21

## Astudiaeth 2 Genedigaeth Crist – Wynebu Problemau



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Galatiaid 4: 4 a 5    1 Timotheus 1: 15    1 Ioan 4: 9 a 14

Roedd Joseff yn wynebu penderfyniad anodd iawn. Canfu fod Mair, y ferch yr oedd ar fin ei phriodi, yn disgwyl babi! Mae'n siŵr iddo geisio dyfalu pwy oedd yn gyfrifol.



**C Ysgrifennwch frawddeg i ddisgrifio ei fwriad.** 1

**C Pa nodwedd yn ei gymeriad a barodd iddo ymddwyn fel hyn? (Gweler adnod 19)** 1

**C Tanlinellwch enw'r person a ymwelodd â Joseff wrth i hwnnw bendroni ynglŷn â beth ddylai ei wneud.** 1

Ei dad    Mair    Angel    Dafydd    Offeiriad

**C Rhowch gylch o gwmpas sut yr ymddangosodd negesydd Duw i Joseff.** 1

Mewn perth o dân.    Mewn cwmwl.    Mewn breuddwyd.

**C Darllenwch adnod 20 ac ysgrifennwch y geiriau priodol yn y bylchau ac yna gorffennwch y frawddeg er mwyn dweud beth ddywedodd yr angel wrtho.** 3

"Joseff fab ................................ paid ag .........................cymryd ..................... yn .................... i ti, oherwydd .............................................................................................

..................................................................................................................................."

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol er mwyn canfod beth arall ddywedodd yr angel.** 1

Byth ers i Adda ac Efa anufuddhau i Dduw yng Ngardd Eden, roedd gwir angen Gwaredwr. Ar draws y canrifoedd, roedd Duw wedi bod yn addo Ei anfon, ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer Ei ddyfodiad. Bellach, roedd yr adeg berffaith honno ar gyfer Ei eni wedi cyrraedd – roedd y Gwaredwr ar ddod!



**C Darllenwch ac ysgrifennwch Galatiaid 4: 4, sy'n esbonio'r pwynt hwn.** 2

Roedd y digwyddiadau hyn yn cyflawni proffwydoliaeth a roddwyd flynyddoedd lawer ynghynt.

**C Darllenwch Mathew 1: 22 a 23 a chyfeiriwch at Astudiaeth 1 i ganfod enw'r proffwyd a ysgrifennodd y geiriau hyn.** 1

**C Tanlinellwch yr ateb cywir ym mhob set o gromfachau.** 3

"Wele, bydd y (FERCH / WRAIG / WYRYF) yn beichiogi ac yn esgor ar

(FAB / MERCH / EFEILLIAID) a gelwir ef

(BETHUEL / SAMUEL / IMMANUEL)."

**C Atebwch y canlynol a rhowch gylch o gwmpas eich atebion yn y CHWILAIR.** 3

1. Ymddangosodd yr angel i bwy?.........................
2. Enw mam y Plentyn. ..........................
3. Un o enwau'r Plentyn. .....................
4. Disgrifiad y proffwyd o'r fam .............
5. Cenhedlwyd y Plentyn drwy'r Ysbryd ............
6. Byddai Ei bobl yn cael eu hachub o'r rhain ............

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| F | Y | R | Y | W | G |
| P | Ff | E | S | O | J |
| E → | Y | M | A | N | M |
| Ch | E | D | U | A | A |
| O | W | G | Y | L | I |
| D | D | A | N | G | R |
| A | I | S | T | A | M |
| U | C | R | I | S | T |

**C Gan ddechrau gyda'r saeth, ysgrifennwch y llythrennau hynny sy'n esbonio ystyr un o enwau'r Plentyn. (Bydd 3 llythyren ar ôl heb eu defnyddio).** 1

**C Yn eich geiriau eich hun, ysgrifennwch beth wnaeth Joseff pan ddeffrodd.** 1

Os byddwn ni, fel Joseff, yn ymddiried ac yn ufuddhau i Air Duw, pan ddown wyneb yn wyneb â phroblemau, gallwn ninnau hefyd fod yn sicr y cawn help gan Dduw. Cofiwch, pan fyddwn yn adnabod yr Arglwydd Iesu fel ein Gwaredwr, gallwn bob tro ddweud Wrtho am ein hanawsterau drwy weddïo arno Ef. Fel ein Ffrind, mae Ef yn barod ar bob adeg i'n gwrando ac i'n helpu.

**C Pa enw roddodd Joseff ar Fab cyntaf-anedig Mair?** 1

**Ystyr yr enw hwn yw 'Duw, Y Gwaredwr'**



**cyfanswm**